**<u>HYSBYSIAD O GYNNIG</u>**

**Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint**
**(B5101 Ffordd Llanfynydd, Ffordd Ddienw 1 a Ffordd Ddienw 2, Llanfynydd) (Terfyn Cyflymder 20mya a 30mya) 202x**

Mae Cyngor Sir y Fflint (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Cyngor") wrth ddefnyddio'i bwerau dan Adran 84 a Rhan IV o Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel "Deddf 1984") a phob pŵer galluogi arall ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

a) Gosod terfyn cyflymder o 20mya yn y darnau o ffordd a nodir yn Atodlen 1 yr hysbysiad hwn.

b) Gosod terfyn cyflymder o 30mya yn y darnau o ffordd a nodir yn Atodlen 2 yr hysbysiad hwn.

c) Bydd y Gorchymyn, os caiff ei wneud, yn dirymu Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Ffordd Llanfynydd) (Terfyn Cyflymder 20mya) 2023 a Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (B5101 Llanfynydd), (Terfyn Cyflymder 30mya) 2016 yn llwyr.

**ATODLEN 1**
**<u>Terfyn Cyflymder 20mya</u>**

**B5101 Ffordd Llanfynydd, Llanfynydd**, o bwynt 10 metr i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â'r Ffordd Ddienw 2, a leolir i'r gorllewin o'r B5101 Ffordd Llanfynydd, am bellter o 34 metr i gyfeiriad y gogledd-orllewin.

**Ffordd Ddienw 1, Llanfynydd**, **a leolir i'r dwyrain o'r B5101 Ffordd Llanfynydd:** O'i chyffordd gyda'r B5101 Ffordd Llanfynydd ar bwynt rhwng eiddo a elwir yn Archway House a Thŷ Capel am bellter o 33 metr i gyfeiriad y dwyrain.

**Ffordd Ddienw 2, Llanfynydd**, **a leolir i'r gorllewin o'r B5101 Ffordd Llanfynydd:** O'i chyffordd gyda'r B5101 Ffordd Llanfynydd ar bwynt rhwng eiddo a elwir yn Llys Awel a New Millward House am bellter o 160 metr i gyfeiriad y gorllewin.

**ATODLEN 2**
**<u>Terfyn Cyflymder 30mya</u>**

**B5101 Ffordd Llanfynydd:** o bwynt 24 metr i'r gogledd orllewin o'i chyffordd â'r Ffordd Ddienw 1, a leolir i'r dwyrain o'r B5101 Llanfynydd, am bellter o 367 metr i gyfeiriad y gogledd-orllewin.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn arfaethedig, ynghyd â chynllun yn dangos y darnau o ffordd y mae'r Gorchymyn arfaethedig yn berthnasol iddynt a datganiad o resymau'r Cyngor dros gynnig gwneud y Gorchymyn, yn Sir y Fflint yn Cysylltu, Llyfrgell yr Wyddgrug, Ffordd yr Iarll, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 1AP yn ystod oriau agor neu fe allwch eu gweld ar ein gwefan www.siryffint.gov.uk > Preswylwyr > Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchmynion Rheoleiddio Traffig neu fe allwch wneud cais am gopi o'r dogfennau drwy e-bostio streetscene@flintshire.gov.uk neu drwy ffonio 01352 701234.

Dylid anfon gwrthwynebiadau i'r Gorchymyn arfaethedig, yn ogystal â'r sail dros wrthwynebu, yn ysgrifenedig at yr unigolyn isod neu drwy anfon e-bost at transportstrategyconsultation@flintshire.gov.uk (gan ddyffynnu'r cyfeirnod SS/JB/20mph/30mph) erbyn dydd Gwener, 9 Chwefror 2024.



Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint.
CH7 6NF
Dydd Gwener 19 Ionawr 2024

**Dyddiedig xx xxxxx 202x**

**Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint**
**(B5101 Ffordd Llanfynydd, Ffordd Ddienw 1 a Ffordd Ddienw 2, Llanfynydd)**
**(Terfyn Cyflymder 20mya a 30mya) 202x**

**GORCHYMYN**

**fel y nodir oddi mewn**

**Katie Wilby**
**Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth)**
**Cyngor Sir y Fflint**
**Neuadd y Sir**
**Yr Wyddgrug**
**Sir y Fflint**
**CH7 6NF**

**Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint**
**(B5101 Ffordd Llanfynydd, Ffordd Ddienw 1 a Ffordd Ddienw 2, Llanfynydd)**
**(Terfyn Cyflymder 20mya a 30mya) 202x**

Mae Cyngor Sir y Fflint (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Cyngor") wrth ddefnyddio'i bwerau dan Adran 84 a Rhan IV o Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel "Deddf 1984") a phob pŵer galluogi arall ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

1. Ac eithrio lle nodir yn wahanol, mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl neu Atodlen â rhif, yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

2. Ni chaiff unrhyw berson yrru unrhyw gerbyd modur ar gyflymder uwch na 20 milltir yr awr ar y darn o ffordd a nodir yn Atodlen 1 y Gorchymyn hwn.

3. Ni chaiff unrhyw berson yrru unrhyw gerbyd modur ar gyflymder uwch na 30 milltir yr awr ar y darn o ffordd a nodir yn Atodlen 2 y Gorchymyn hwn.

4. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongliad y Gorchymyn hwn gan ei fod yn berthnasol ar gyfer dehongli Deddf Seneddol.

5. Bydd y Gorchymyn yn dirymu Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Ffordd Llanfynydd (Terfyn Cyflymder 20mya) 2023 yn llwyr a Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (B5101 Ffordd Llanfynydd) (Terfyn Cyflymder 30mya) 2016 yn llwyr.

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn dod i rym ar xx xxxxxx 202x a gellir cyfeirio ato fel Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (B5101 Ffordd Llanfynydd, Ffordd Ddienw 1 a Ffordd Ddienw 2, Llanfynydd) (Terfyn Cyflymder 20mya a 30mya) 202x

## ATODLEN 1
## Terfyn Cyflymder 20mya

**B5101 Ffordd Llanfynydd, Llanfynydd**, o bwynt 10 metr i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â'r Ffordd Ddienw 2, a leolir i'r gorllewin o'r B5101 Ffordd Llanfynydd, am bellter o 34 metr i gyfeiriad y gogledd-orllewin.

**Ffordd Ddienw 1, Llanfynydd**, **a leolir i'r dwyrain o'r B5101 Ffordd Llanfynydd:** O'i chyffordd gyda'r B5101 Ffordd Llanfynydd ar bwynt rhwng eiddo a elwir yn Archway House a Thŷ Capel am bellter o 33 metr i gyfeiriad y dwyrain.

**Ffordd Ddienw 2, Llanfynydd**, **a leolir i'r gorllewin o'r B5101 Ffordd Llanfynydd:** O'i chyffordd gyda'r B5101 Ffordd Llanfynydd ar bwynt rhwng eiddo a elwir yn Llys Awel a New Millward House am bellter o 160 metr i gyfeiriad y gorllewin.

## ATODLEN 2
## Terfyn Cyflymder 30mya

**B5101 Ffordd Llanfynydd:** o bwynt 24 metr i'r gogledd orllewin o'i chyffordd â'r Ffordd Ddienw 1, a leolir i'r dwyrain o'r B5101 Llanfynydd, am bellter o 367 metr i gyfeiriad y gogledd-orllewin.

**GOSODWYD SÊL GYFFREDIN CYNGOR** )
**SIR Y FFLINT** ar y xx )
diwrnod hwn o xxxxx 202x ym mhresenoldeb:- )

**Y CADEIRYDD**

**PRIF SWYDDOG (LLYWODRAETHU)**

**RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL**

**UWCH GYFREITHIWR**

**Gorchymyn**
**(B5101 Ffordd Llanfynydd, Ffordd Ddienw 1 a Ffordd Ddienw 2, Llanfynydd)**
**(Terfyn Cyflymder 20mya) 202x Cyngor Sir y Fflint**

## DATGANIAD O RESYMAU DROS ARGYMELL GWNEUD Y GORCHYMYN

Oherwydd bod y darnau o ffyrdd yn Atodlen 1 y Gorchymyn Rheoli Traffig hwn mewn ardal ymylol sydd heb oleuadau stryd arnynt cynigir gwneud Gorchymyn Rheoli Traffig 20mya gan fod y ffyrdd yma’n cefnogi’r meini prawf ar gyfer y terfyn cyflymder awgrymedig a hysbysebir.

Bydd y terfyn cyflymder presennol o 30mya ar y darn y ffordd a nodir yn Atodlen 2 yn cael ei gynnwys yn y Gorchymyn Traffig newydd.

Mae'r Awdurdod yn parhau â’i gyfrifoldeb i ystyried darparu symudiad cyfleus a diogel i gerbydau modur a thraffig arall, ac mae’r mesurau arfaethedig yn ceisio sicrhau bod y perygl yn cael ei leihau ar gyfer defnyddwyr ffordd ynghyd â gwella amwynder yr ardal.

Ceir manylion y cynigion yn yr Hysbysiad Cyhoeddus ac yn y Gorchmynion Drafft arfaethedig.

Katie Wilby,
Cyngor Sir y Fflint,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 6NF. Dydd Gwener 19 Ionawr 2024.

Dyddiedig 5fed Gorffennaf 2016

Gorchymyn
(B5101 Llanfynydd)
(Terfyn Cyflymder 30mya Cyngor) Sir y Fflint 2016

**GORCHYMYN**

gweler oddi mewn

Steve Jones,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth)
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint
CH7 6NF
T470313

**Gorchymyn**
**(B5101 Llanfynydd)**
**(Terfyn Cyflymder 30mya) Cyngor Sir y Fflint 2016**

Mae Gorchymyn Sir y Fflint (y cyfeirir ato fel "y Cyngor" o hyn ymlaen) wrth arfer ei bwerau o dan Adran 84 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (y cyfeirir ato fel "Deddf 1984" o hyn ymlaen) a'r holl bwerau galluogi eraill, ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i Ddeddf 1984, drwy hyn, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

1. Dylid dehongli unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu atodiad wedi'i rifo, oni bai bod y cyd-destun yn gofyn fel arall, fel cyfeiriad at yr erthygl neu'r atodiad sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

2. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur dros 30 milltir yr awr ar hyd y darnau o'r ffyrdd a nodir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

3. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol mewn perthynas â dehongli'r Gorchymyn hwn fel bo'n berthnasol ar gyfer dehongli Deddf Seneddol.

4. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 8fed Gorffennaf 2016 a gellir cyfeirio ato fel Gorchymyn (B5101 Llanfynydd) (Terfyn Cyflymder 30 mya) Cyngor Sir y Fflint 2016.

**ATODLEN**
**Terfyn cyflymder 30mya**

**B5101 Ffordd Llanfynydd**: o bwynt 21 metr i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â'r ffordd ddienw ar yr ochr ddwyreiniol rhwng Archway House a Chapel House, am bellter o 367 metr i gyfeiriad y gogledd-orllewin.

**Ffordd ddienw i'r dwyrain o'r B5101 Ffordd Llanfynydd:** O'i chyffordd â'r B5101 Ffordd Llanfynydd i bwynt rhwng Archway House a Chapel House am bellter o 33 metr i gyfeiriad y dwyrain.


**Ffordd ddienw i'r gorllewin o'r B5101 Ffordd Llanfynydd:** O'i chyffordd â'r B5101 Ffordd Llanfynydd i bwynt rhwng Llys Awel a New Millward House am bellter o 160 metr i gyfeiriad y gorllewin.

Rhoddwyd **SÊL GYFFREDIN CYNGOR SIR Y FFLINT** )
ar y 5fed dydd o Gorffennaf 2016 )
ym mhresenoldeb :- )

**CADEIRYDD**

**UWCH GYFREITHIWR/PRIF SWYDDOG (LLYWODRAETHU)**

15822




## KEY

| | |
|---|---|
| Blue line | Terfyn Cyflymder 20mya<br>20mph Speed limit |
| Red line | Terfyn Cyflymder 30mya<br>30mph Speed limit |


This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings.
Licence number 100023386.Flintshire County Council, 2018.


PRELIMINARY | APPROVAL | CONSTRUCTION

| Ph/Rev. | Revision Details | Rev.by | Chk.by | Date |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL


Katie Wilby
Chief Officer (Streetscene and Transportation).
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryda Thafnidiaeth).
StreetScene
County Hall, Mold, CH7 6NF
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NF



Project:

# Terfyn Cyflymder 20/30mya
# 20/30 Speed Limit

# B5101 Ffordd Llanfynydd, Unnamed Road 1 and Unnamed Road 2, Llanfynydd

Flintshire County Council - Environment Directorate , County Hal l , Mold CH7 6NF

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Contact Name: | Nick Williams | Telephone: | 01352 704642 | |
| Drawn by: | Nick Williams | Fax No: | 01352 70 | |
| Checked by: | Richard Flood | Date: | Jan 2024 | Sheet 1 of 1 |
| Scales at A1: 1: NTS | | Drawing No: HT/24/Llanfynydd/201 | | Phase/Rev: C1 |




## KEY

Terfyn Cyflymder 20mya

20mph Speed limit

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence number 100023386.Flintshire County Council, 2018.

PRELIMINARY | APPROVAL | CONSTRUCTION

| Ph/Rev. | Revision Details | Rev.by | Chk.by | Date |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

Katie Wilby

Chief Officer (Streetscene and Transportation).
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryda Thafnidiaeth).

StreetScene

County Hall, Mold, CH7 6NF
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NF

Project:

# Terfyn Cyflymder 20mya
# 20 Speed Limit

## Ffordd Llanfynydd, Llanfynydd

Sheet 1 of 1

Flintshire County Council - Environment Directorate , County Hal l , Mold CH7 6NF

| | | | |
|---|---|---|---|
| Contact Name: | Nick Williams | Telephone: | 01352 704642 |
| Drawn by: | Nick Williams | Fax No: | 01352 70 |
| Checked by: | Richard Flood | Date: | JULY 2023 |

Sheet 1 of 1

Scales at A1: 1: NTS

Drawing No: HT/23/Llanfynydd/201

Phase/Rev: C1

AutoCAD File Ref: H:\TRO's Speed\TRO's 2023\No Street Lighting\No Street Lighting 2.dwg Aug 15, 2023 - 9:28am